❖ Y Ddafad Golledig a'r Nadolig

Yn y cwrdd gweddi cyn y Nadolig fe ddarllenodd Cliff Jones hanes y bugeiliaid yn dod o'r maes at y preseb, ac yna yn annisgwyl, darllen dameg y ddafad golledig.

Mae'n siŵr fod Mair wedi dweud am y bugeiliaid wrth Iesu lawer gwaith, ac wrth Pedr a'r disgyblion efallai. Byddai hynny'n esbonio sut y byddai Luc wedi clywed yr hanes. Wedi'r cwbwl, roedd y cyfan wedi ei gadw ganddi. Yn ôl Luc, 'yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt.'

Ni feddyliais i erioed ofyn i neb ddarllen am y ddafad golledig mewn cyswllt â'r Nadolig, ond yr oedd hi'n weledigaeth drawiadol yn y cwrdd gweddi ym Methania y noson honno. Oherwydd fe gawsom glywed am fugeiliaid mewn sefyllfaoedd hollol wahanol i'w gilydd yn wynebu un o benderfyniadau mawr bywyd. Bugeiliaid yn penderfynu gadael eu praidd i fynd i wneud gwaith pwysicach.

Edrychais ar wynebau'r cyd-addolwyr a oedd yno gyda ni yn y cwrdd gweddi. Roedd pawb oedd yno â'i fywyd yn ddigon prysur gan orchwylion. Y gwragedd ar ganol helbulon paratoi ar gyfer yr ŵyl. Gadawodd pob un ohonyn nhw'r gorchwylion a dod i addoli, a dweud, 'Gadewch inni fynd i Fethlehem…' (Luc 2:15).

Mae'r dewis yna yn dod inni yn aml, bob tro y cawn ni'n cymell i droi at Dduw mewn gweddi ddirgel. Mae'n ein galw oddi wrth yr angenrheidiol at yr anhepgorol.

John Gwilym Jones